



Nifer y busnesau sydd wedi cofrestru:

12,292



Nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru:

25,692

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:



TYFU CNYDAU AR GYFER Y DIWYDIANT FFERYLLO

Mae'r erthygl hon yn edrych ar y cyfleoedd arallgyfeirio posib ar gyfer busnesau fferm a'r cyfleoedd i gynhyrchu cynhyrchion gwerth uchel os yw amodau fferm yn addas.



DATBLYGU CADWYNI CYFLENWI BWYD BYR

Mae datblygu cadwyni cyflenwi bwyd byr yn cynnig cyfleoedd i ffermwyr i arallgyfeirio eu busnes, cynyddu eu cwsmeriaid a darparu gwybodaeth ar ansawdd a tharddiad. Mae gan bob un o'r pethau hyn y potensial i gynyddu gwerth, ac felly proffidioldeb.



NEWID DEFNYDD TIR AR GYFER ATAFaelu CARBON: ASESU DYLANWAD MASNACHU CARBON

Mae'r erthygl hon yn ymchwilio i'r potensial i ennill incwm drwy fasnachu carbon a'r problemau posib y gellid dod ar eu traws.

Cynllun Datblygu Personol (CDP)

CAFODD **207** CDP EU CREU YN YSTOD Y CYFNOD HWN



Rhwydwaith Arddangos

Pantyderi, Sir Benfro

Prif Sector: Âr, Biff, Defaid

Mae'r cynydu sy'n cael eu tyfu ar fferm Pantyderi yn cynhyrchu digon o egni starts i dyfu a phesgi'r 400 o wartheg biff ar y safle bob blwyddyn, ond roedd cymysgedd dwysfwyd protein 36% yn cael ei brynu i wneud iawn am y diffyg protein yn y dogn. Treialwyd cyd-dyfu pys a ffa yn fferm Pantyderi, gyda'r nod o gyfnewid y cymysgedd a brynwyd i mewn am gnwd protein wedi'i dyfu gartref.

Ystadegau:

Dognau bwyd

Crëwyd dognau gwartheg biff a oedd yn cynnwys yr un faint o egni a phrotein â diet y gaeaf blaenorol; dangosir yr arbedion ar gyfer bwydo'r pys a'r ffa isod.

	Dogn ar gyfer gwartheg sy' tyfu		Dogn Pesgi	
	1	2	1	2
Blwyddyn	1	2	1	2
Cost/pen/y dydd £	1.35	1.29	2.39	2.18
Arbedion £*	1,800		3,788	

*Arbedion yn seiliedig ar 200 o wartheg yn cael eu bwydo am bum mis ar ddogyn tyfu a thri mis ar ddogyn pesgi.

Mae gwenith gaeaf wedi dilyn y cnwd pys a ffa, ac amcangyfrifir y bydd gallu'r cnwd codlysiu i sefydlogi nitrogen yn cyfrannu hyd at 100kg/ha o nitrogen gweddilliol ar gyfer y cnwd sy'n werth £1508 ar gyfer y cae 8ha.

Ôl-troed carbon y fferm

Arbedion carbon o beidio â phrynu 40 tonnell o ddwysfwyd brotein:

- 40 x 1.5 tonnell o CO₂e/tonnell = 60 tonnell o CO₂e

Arbedion carbon o ran y gwrtaithe ar gyfer y cnwd gwenith gaeaf nesaf:

- 800kg N x 3.4kg o CO₂e/kg = 2.72 tonnell o CO₂e

Mountjoy: Treial yn dangos ychydig o ostyngiad yn unig mewn cynnyrch porfa o leihau'r defnydd o nitrogen (N) yn yr haf

Mae Mountjoy, safle arddangos Cyswllt Ffermio ger Hwlfordd, eisoes yn defnyddio llai o N na'r terfyn uchaf RB209 a argymhellir, ond yn dymuno lleihau'r mewnbwn ymhellach os yn bosibl, er mwyn arbed costau a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Y nod yw lleihau cyfartaledd y fferm gyfan i 160kg N/ha o lefelau'r gorffennol oedd o gwmpas 230kg N/ha yn flynyddol.

Roedd y treial yn cynnwys defnyddio cyfradd safonol o N ar gyfer y pedwar cylch pori cyntaf ar draws ardal y treial cyfan – yna defnyddio N ar gyfradd sero, ar hanner y gyfradd ac ar gyfradd lawn ar gyfer pedwar cylch pori arall.

Effaith haneru neu atal y defnydd o nitrogen

	Dim N yn yr haf	Hanner y gyfradd	Cyfradd lawn
Cyfanswm y N a ddefnyddiwyd	80 kg N/ha (cyn Gorffennaf)	119 kg N/ha	158 kg N/ha
Canran cyfanswm y N a ddefnyddiwyd yn y tymor	50%	75%	100%
Arbedion/ha Gorffennaf-Medi yn erbyn defnyddio N ar gyfradd lawn (34.5%N@£650/t)	147/ha (£1.88*78 kg N/ha)	£73/ha (£1.88*39 kg N/ha)	
Cyfanswm y deunydd sych a gynhyrchwyd ar draws y tymor (kgDM/ha)	14.4 t DM/ha	15 t DM/ha	16.0 t DM/ha
Cyfanswm y potensial cynhyrchu deunydd sych (%)	90%	94%	100%

O leihau cyfanswm y nitrogen o 50%, dim ond 10% yn llai o laswellt a – ond roedd y gostyngiad hwn yn dibynnu ar lefelau uchel o fwyneiddiad pridd a sefydlogiad meillion yn ystod yr haf er mwyn disodli'r rhan fwyaf o'r N artiffisial.

Cyflwynwyd triniaeth dim N ar un rhan o'r cae treialu, a 94kg N/ha o'r tri o dair triniaeth ar weddill y cae. **Unwaith eto, ni chafodd y treial hanner cyfradd yn yr haf fawr o effaith ar gyfanswm twf glaswellt – arweiniodd gostyngiad o 19% yn y defnydd o nitrogen at ostyngiad o 5% yn unig mewn twf glaswellt.**

Effaith cael gwared ar nitrogen – a haneru'r defnydd o nitrogen yn yr haf – 2021


	Dim N	Hanner cyfradd N	Cyfradd lawn N
Cyfanswm y N a ddefnyddiwyd	0	120 kg N/ha	147 kg N/ha
Canran cyfanswm y N a ddefnyddiwyd yn y tymor	0%	81%	100%
Cyfanswm y deunydd sych a gynhyrchwyd ar draws y tymor (kgDM/ha)	8.33 t DM/ha	11.8 t DM/ha	12.4 t DM/ha
Cyfanswm potensial cynhyrchu deunydd sych (%)	14.4 t DM/ha	15 t DM/ha	16.0 t DM/ha

Yn achos peidio â defnyddio N, mae'r nifer o feillion gwyn yn y gwyndonnydd wedi cynyddu (i 23% mewn cymhariaeth â 13%), felly mae'n bosibl bod potensial i weld mwy o sefydlogiad N o'r meillion, a hwb i dyfiant glaswellt tua diwedd y tymor.

Dengys y treial, pe na bai N yn cael ei ddefnyddio o gwbl, byddai Mountjoy yn tyfu tua 7t DM y flwyddyn, ar sail meillion a mwneiddiad pridd N; mae hyn gryn dipyn yn llai na'r hyn sydd angen ar y fuches.

Ni fydd lleihau'r defnydd o nitrogen yn yr haf lle mae cyflwr y pridd a/ neu lefelau meillion yn uchel yn cael fawr o effaith ar dwf y glaswellt, ond gallai fod ag arbedion ariannol sylweddol, a dylid ei annog.

Datblygu dull newydd a chyflym o fesur effeithiau triniaeth agronomeg ar dyfiant glaswellt



Ffigur 1. Delweddau lloeren, i fesur gwahanol driniaethau agronomeg gan ddefnyddio treialon mewn lleiniau ar ffurf sribedi.

Mae mesur cnwd glaswellt yn drafferthus ac yn llafurus oherwydd bod angen naill ai sawl mesuriad gan ddefnyddio plât mesur neu gyfrif a phwyso trelars silwair. Mae cynhyrchwyr glaswellt/porthiant mewn perygl o fod ar ei hôl hi o ran cyfradd gwella cynhyrchiant, o gymharu â ffermwyr â, sydd â mynediad at gombeiniau gyda monitorau cnwd. Yn ystod tymhorau tyfu 2020 a 2021, ymchwiliodd tri ffermwr glaswelltir i botensial dronau a delweddau lloeren, i fesur gwahanol driniaethau agronomeg gan ddefnyddio treialon mewn lleiniau ar ffurf sribedi, a defnyddio'r wybodaeth hyn i wneud y gorau o reoli cynydu.

Profodd yr astudiaeth ystod eang o driniaethau agronomeg, gan gynnwys cymysgeddau glaswellt a meillion gwahanol, cyfraddau gwasgaru gwrrtaith sylffwr, slyri, deunydd hybu tyfiant Smart Grass, a chynhyrchion bio-ysgogi.

Canlyniadau

- Roedd y drôn a'r lloeren yn gallu canfod gwahaniaethau sylweddol yn y triniaethau agronomegol a ddefnyddiwyd ar y ffermydd.
- Mantais data drôn yw tra-chywiredd a gellir eu canfod pan fydd hi'n gymylog. Fodd bynnag, mae angen arbenigedd technegol ar ffermwyr i weithredu a chasglu'r data hwn; neu byddai'n bosib mynd ar ofyn contractwr arbenigol.
- Gall data lloeren fod yn rhad ac am ddim, ond mae angen arbenigedd i gaffael y data. Dim ond mewn amodau cymylog y gellir ei gael, ac efallai na cheir cyflwr tywydd o'r fath am nifer o wythnosau, ac ni all ganfod gwahaniaethau o ran triniaethau sydd mor fychan â'r rhai y gellir eu canfod gan ddefnyddio data drôn.

Costau amcangyfrifedig:

- Tua £850 y cae oedd cost caffael y data drôn
- Tua £200 y cae oedd y gost o ran amser yr ymgynghorydd i gaffael y data sydd ar gael i bawb o loeren Sentinel-2
- Amcangyfrifir mai cost amser ymgynghorydd ar gyfer dadansoddi'r data i brofi effaith triniaethau agronomegol ar sail ystadegau oedd £400 fesul cae ar gyfer drôn a £250 ar gyfer lloeren. Nid yw TAW wedi'i gynnwys yn yr holl gostau hyn.

Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd 132 o unigolion gefnogaeth un-i-un drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 16 o unigolion o fewn 8 Menter ar y Cyd gefnogaeth drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar ddarparu'r gwasanaeth Cyngori hwn:

"Gwasanaeth rhagorol, ni allaf feio unrhyw agwedd. Roedd sylfaen wybodaeth y cyngorydd ynghylch ffermio/amaethyddiaeth yn arbenigol, a oedd yn cyfoethogi'r broses gyfan. Roedd Cynllun Busnes ardderchog wedi'i lunio – ymhell o fewn ein hamserlen. Proffesiynol ac effeithlon. Diolch yn fawr"



Grŵp trafod biff y Gŵyr

Gwahoddwyd Chris Duller (ymgyngorydd pridd a glaswelltir annibynnol) i siarad â'r grŵp am rôl nitrogen mewn ffermio modern – yn enwedig yn ddiweddar, gyda chost gwrrtaith mor uchel. Mae ffermwyr yn gorfod gwneud penderfyniadau busnes allweddol a allai effeithio ar eu cynhyrchiant a'u proffidioldeb, o ran prynu gwrrtaith ai peidio, ac ystyried dewisiadau eraill sydd ar y farchnad ar hyn o bryd.

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, roedd Chris wedi gofyn i holl aelodau'r grŵp roi gwybodaeth iddo am ba nitrogen a ddefnyddiwyd ganddynt o fewn eu systemau ffermio yn 2021, a pha anawsterau (os o gwbl) y maent wedi'u hwynebu yn 2022 hyd yn hyn. Arweiniodd hyn at ddigon o drafod ar gostau cynyddol a bygythiadau i hyfywedd busnes.

Aeth Chris ymlaen i drafod prisiau presennol gwrrtaith nitrogen, a sut maent yn seiliedig ar y farchnad nwy. Dangosodd y gwahaniaethau bras mewn pris o 2019/20 i 2022, a sut y byddant yn effeithio ar fusnesau o ran eu costau £/ha, yn ogystal â p/kgLW.

Credai Chris fod angen nitrogen o hyd. Dywedodd y byddai peidio â phrynu eleni yn ddewis gwael, gan y byddai'n effeithio'n fawr ar dyfiant glaswellt a chnydau - ond efallai y bydd opsiynau i ddefnyddio llai. Trafododd y grŵp ble i flaenoriaethu o ran gwasgaru nitrogen, a thrafododd Chris gyda nhw sut na ddylent dorri costau ar eu gwasgariadau mewn caeau silwair toriad cyntaf, gan mai dyma'r amser pwysicaf o'r flwyddyn o hyd i sicrhau eu bod yn cynhyrchu digonedd o borthiant gaeaf.

Trafododd Chris strategaethau lliniaru i gydbwyso costau amrywiol uchel; roedd y rhain yn cynnwys: gwerthu stoc yn gynnar, prynu porthiant ychwanegol i mewn, sefydlu cynydu sydd angen llai o N a chynyddu meillion yn y gwyndonnydd, ac edrych am ffynonellau nitrogen eraill.

Trwy Cyswllt Ffermio, mae yna nifer o wasanaethau a all helpu busnesau sy'n poeni am gostau cynyddol, gan gynnwys cymorthfeydd busnes, mentoriaid a chymorth ar gyfer cynlluniau busnes.



Ffigur 2. Chris Duller (ymgyngorydd priddoedd a glaswelltir annibynnol).

Mentor

801



DATGANIAD DIDDORDEB WEDI'U CYFLWYNO ERS DECHRAU'R

311



O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL



YN CHWILIO AM BARTNER
(Wedi ymuno'n llawn)

WEDI CANFOD PARTNER

WEDI CWBLHAU MENTERARY CYD

52,300

ERW
ERW O DIR DAN SYLW




Cymorthfeydd

 CYNHALIWYD **28** CYMHORTHFA gyda

 **189** O FYNICHWYR

Mae'r siart yn dangos pa fath o gymorthfeydd a gafodd y busnes a faint:






Mynychodd un busnes gymhorthfa farchnata ac arallgyfeirio a chymhorthfa cynllunio, gyda'r posibilrwydd o edrych i ddatblygu maes gwerau. Yr adborth a dderbyniwyd ar ôl mynychu'r gymhorthfa oedd:

"Rwyf wedi dysgu sut i greu cynllun busnes i gyd-fynd â'n bwriadau busnes a pha gamau y byddai angen i ni eu cymryd nesaf o ran technegau cynllunio a marchnata."

"Amlygodd y feddygfa bethau nad oeddem wedi eu hystyried a dysgwyd bod angen cynllunio ariannol llawer mwy manwl arnom nag yr oeddem wedi'i wneud eisoes."

Agrigôp

Gan weithio gyda'i gilydd o fewn grŵp, gall aelodau Agrigôp ddysgu sgiliau rheoli newydd, cyrchu gwybodaeth arbenigol, ac archwilio a datblygu dyfodol hyfw i'w hunain, eu teuluoedd a'u busnesau.

 **38** GRŴP GWEITHREDOL gyda
 **408** O AELODAU wedi mynychu cyfanswm o
 **78** O GYFARFODYDD

Pynciau a drafodwyd:

Ffermio adfywiol



Arallgyfeirio



Cadw llyfrau



Cadw gwenyn



Mentora

 **644** O BOBL WEDI CAEL EU MENTORA

 **15** PERSON NEWYDD WEDI CAEL EU MENTORA YN YSTOD Y CYFNOD HWN

Y pynciau mwyaf poblogaidd a ymgeisiwyd ar eu cyfer yn ystod y cyfnod oedd:

Cynllunio olyniaeth



Arallgyfeirio



Cadw gwenyn



E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

ARALLGYFEIRIO
BUSNES FFERM



ADNODDAU
DYNOL AR Y FFERM



TROSEDD CEFN GWLAD
– CADW EICH FFERM YN
DDIOGEL



CYNLLUNIO
A CHYLLID



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cyrsiau	Nifer o unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn
Cadw llyfrau	17
Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng	13
Deall a defnyddio eich cyfrifon	7
Marchnata eich Busnes	6
Cyflwyniad i Gynllunio Busnes Amaethyddol	6

Rhaglen TGCh

LEFEL 1

Cwrs hyfforddiant
6 wythnos =
51
unigolyn wedi derbyn
hyfforddiant

LEFEL 2

Hyfforddiant
un-i-un =
172
unigolyn wedi derbyn
hyfforddiant

Cyfnewidfa Rheolaeth

Cyfnewidfa Rheolaeth
Kathryn Tarr, Chwefror 2022
Pwnc: Ffermio Adfywiol – Da Byw
Gwlad: DU



Ffigwr 3. Kathryn Tarr

Yn ystod mis Chwefror 2022, teithiodd Kathryn i fuchesi Dyfnaint Coch eraill yn y DU, gan archwilio dichonoldeb cynlluniau blychau cig. Sylweddolodd Kathryn yr angen i ychwanegu gwerth i'r cynnyrch terfynol trwy hefyd edrych ar gynnyrch wedi'i besgi ar laswellt. Gwelodd farchnad arbenigol ar gyfer y cynnyrch, a gwelodd y byddai marchnata yn allweddol i ddatblygu busnes blychau cig llwyddiannus. Ar ôl dychwelyd adref, mae Kathryn wedi ymrestru ei hun ar gwrs Rhagori ar Bori, i helpu i weithredu'r hyn y mae wedi'i ddysgu a chanlyniadau ei Chyfnewidfa Rheolaeth, ac i helpu i ddatblygu ei syniad o ychwanegu gwerth i'w chynnyrch, gyda'r nod o werthu ei chynnyrch terfynol ei hun drwy gynllun blychau cig yn y dyfodol agos.